

<b>MATRICES SGORIO</b>		
<b>Gradd</b>	<b>Meini Prawf</b>	<b>Sgôr</b>
<b>Da iawn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dangos aliniad cryf iawn â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, tystiolaeth o angen ac ymgysylltu lleol.</li> <li>• Prosiect yn cynnig gwerth da iawn am arian, mae costau uned fesul allbwn/deiliant yn dda iawn, gyda strategaeth ymadael sy'n dangos cynaliadwyedd ar ôl cyllid grant</li> <li>• Hyder llwyr yn y gallu i gyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Rhagolygon da iawn ar gyfer llwyddiant y prosiect.</li> </ul>	<b>5</b>
<b>Da</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dangos aliniad da â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, tystiolaeth o angen ac ymgysylltu lleol.</li> <li>• Prosiect yn cynnig gwerth da am arian, mae costau uned fesul allbwn/deiliant yn dda, gyda strategaeth ymadael sy'n amlinellu'r potensial i gynnal y prosiect ar ôl cyllid grant</li> <li>• Lefel uchel o hyder mewn cyflawniad a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Rhagolygon da ar gyfer llwyddiant y prosiect</li> </ul>	<b>4</b>
<b>Derbyniol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dangos aliniad derbyniol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, tystiolaeth o angen ac ymgysylltu lleol.</li> <li>• Prosiect yn cynnig gwerth rhesymol am arian, mae costau uned fesul allbwn/deiliant yn dderbyniol, gyda strategaeth ymadael sy'n amlinellu rhai opsiynau posibl ar gyfer cynnal darpariaeth ar ôl cyllid grant.</li> <li>• Rhai gwendidau neu ddiffygion derbyniol o ran y gallu i gyflenwi</li> <li>• Lefel resymol o hyder yn y gallu i gyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Tebygolrwydd rhesymol o lwyddiant y prosiect</li> </ul>	<b>3</b>
<b>Ymylol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dangos aliniad sylfaenol ond cyfyngedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, tystiolaeth o angen ac ymgysylltiad lleol.</li> <li>• Y gallu o bosibl i gyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Prosiect yn annhebygol o gynnig gwerth am arian, mae costau uned fesul allbwn/deiliant yn uchel, gyda strategaeth ymadael sy'n methu â rhoi hyder mewn parhad cyllid ar ôl grant.</li> <li>• Rhai gwendidau neu ddiffygion</li> <li>• Lefel gyfyngedig o hyder mewn cyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Posibilrwydd o lwyddiant y prosiect</li> </ul>	<b>2</b>
<b>Gwael</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o angen lleol, ymgysylltu, neu allu cyfyngedig iawn i fodloni aliniad â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol</li> <li>• Gwendidau neu ddiffygion mawr</li> <li>• Prosiect yn methu â chynnig gwerth am arian, mae costau uned fesul allbwn/deiliant yn uchel iawn. Mae'r strategaeth ymadael yn wael.</li> <li>• Lefel gyfyngedig iawn o hyder mewn cyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Tebygolrwydd isel o lwyddiant y prosiect</li> </ul>	<b>1</b>
<b>Annerbyniol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn methu â bodloni'r meini prawf ym mhob ffordd</li> <li>• Yn dynodi camddealltwriaeth lwyr o'r gofynion a nodwyd, neu ddiffyg cydymffurfio â hwy</li> <li>• Dim hyder mewn cyflenwi a chyflawni'r allbynnau a deilliannau arfaethedig.</li> <li>• Dim gobaith o lwyddiant y prosiect</li> </ul>	<b>0</b>

